# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Dechrau Dysgu**

**Ysgol Gymraeg Gwaun Y Nant**
**Llys Amroth**
**Y Barri**
**CF62 9DU**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Dechrau Dysgu yn darparu gofal sesiynol a gofal cofleidiol i hyd at 28 o blant. Mae'n gweithredu o ystafell ddosbarth ar dir Ysgol Gwaun Y Nant, y Barri. Mae ar agor rhwng 9am a 3pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel rhan o raglen Dechrau'n Deg gydag wyth lle ar gael ym mhob sesiwn. Canolfan Blant Gibbonsdown yw darparwr y gwasanaeth ac mae unigolyn cyfrifol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y gwasanaeth. Gemma Lees yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Gwelsom fod y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin Dechrau Dysgu yn hapus ac yn frwdfrydig dros eu profiadau dysgu. Maent yn cael gofal gan staff magwrus a charedig sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r plant wedi setlo'n dda ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel, gydag amrywiaeth o ardaloedd diddorol ac adnoddau i wella eu chwarae a'u dysgu. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn fodlon ar gynnydd eu plant a'r gwasanaeth a ddarperir.

**2. Gwelliannau**

Mae'r unigolyn cofrestredig wedi cyflawni'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad arolygu diwethaf mewn perthynas ag arwain a rheoli ac iechyd a diogelwch.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Dim

## 1. Llesiant Da

**Crynodeb**

Gwrandewir ar y plant yng Nghylch Meithrin Dechrau Dysgu a gallant wneud dewisiadau. Maent yn ddiogel, wedi setlo ac yn mwynhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Maent yn rhyngweithio'n hyderus â'i gilydd ac ag oedolion cyfarwydd.

**Ein canfyddiadau**

Wrth gyrraedd, gwnaeth plant ddewis o amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael iddynt, a symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Er enghraifft, gwnaeth y plant chwarae yn y gornel chwarae rôl cyn symud ymlaen i chwarae gyda theganau adeiladu. Yn ystod amser cylch, gofynnwyd i'r plant pa deganau roeddent am i'r staff fynd i'w nôl iddynt chwarae â nhw. Gofynnodd y plant i'r staff yn hyderus a allent fynd i nôl yr offerynnau cerdd, y blociau adeiladu a'r merlod. Dewisodd y plant pa ganeuon roeddent am eu canu ac ar ba dempo. Gwnaethant wenu o glust i glust wrth i'r gân o'u dewis gael ei chanu yn gyflym neu'n araf.

Roedd y plant yn cyrraedd y gwasanaeth yn hapus, ac roeddent gartrefol yn ystod ein hymweliad. Roeddent yn gwneud ceisiadau i'r staff, ac roeddent yn gwybod y byddai'r staff yn ymateb yn gadarnhaol. Er enghraifft, dywedodd y plant wrth y staff eu bod am osod y blociau ar y bwrdd glas. Yn yr awyr agored, aeth y plant at y staff yn hyderus i ofyn a allent chwarae gyda'r garej. Roedd ceisiadau'r plant yn cael ymateb cadarnhaol gan y staff.

Roedd y plant yn barod i gydweithredu ac yn ymddwyn yn dda. Roeddent yn rhyngweithio'n dda â'r plant eraill ac aelodau o'r staff ar y cyfan. Roedd y plant hŷn yn gallu datrys anghydfodau dros deganau drostynt eu hunain. Er enghraifft, pan oedd dau blentyn am yr un bwyd chwarae rôl, roeddent yn gwybod bod angen iddynt rannu. Dywedodd un plentyn wrth blentyn arall ‘We need to share!’. Roedd y plant iau yn gwrando ar y staff a oedd yn ymyrryd pan oedd mân anghytuno dros deganau ac adnoddau a rennir yn y twba dŵr. Roedd y plant yn rhoi mwythau i'r staff yn ddigymell ac yn eistedd ar eu gliniau wrth edrych ar lyfrau yn ystod amser stori.

Roedd y plant yn mwynhau chwarae yn yr awyr agored, gan neidio i fyny ac i lawr wrth aros. Gwnaethant chwarae am gryn dipyn o amser yn llenwi cynhwysyddion ac arllwys dŵr yn y twba dŵr ac yn chwrae gyda'r ewyn eillio. Gwnaeth un plentyn adeiladu tŵr uchel cyn bloeddio'n llawn cyffro wrth iddo fwrw'r tŵr drosodd a dechrau'r broses eto. Yn yr awyr agored, roedd y plant yn mwynhau chwarae ar dreiciau, y tegan siglo ac yn yr ardal adeiladu. Yn ystod amser cylch, ymunodd y plant yn fywiog â chaneuon actol Cymraeg. Dangosodd un plentyn lyfr yr oedd wedi dod ag ef o gartref yn falch, ac roedd yn amlwg wrth ei fodd pan ddarllenwyd y llyfr yn ystod amser stori.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu hannibyniaeth. Wrth gyrraedd, gwnaeth y plant hongian eu cotiau ar begiau lefel isel. Roeddent yn golchi eu dwylo cyn amser byrbryd, ac yn arllwys eu dŵr neu laeth eu hunain. Roeddent yn bwyta couscous a phuprynnau â llwyau, yn rhoi'r bwyd nad oeddent wedi ei fwyta yn y bin gwastraff bwyd ac yn rhoi'r platiau a'r cwpanau roeddent wedi'u defnyddio ar droli. Roedd rhai o'r plant yn

glanhau eu dannedd eu hunain. Roeddent yn tacluso ar wahanol adegau, ac yn ceisio gwisgo eu cotiau a chau sipiau eu cotiau gydag ychydig o help gan y staff.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gweithgareddau amrywiol ac ysgogol i'r plant. Maent yn diwallu anghenion y plant yn gyson am eu bod yn eu hadnabod yn dda ac yn llawn cymhelliant ac yn frwdfrydig yn ystod y drefn bob dydd.

### Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn gwybod bod diogelu plant yn flaenoriaeth uchel ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o ddelio â phryderon neu ddatgeliadau pan roddwyd senarios gwahanol iddynt. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf ac roedd gweithdrefnau clir ar waith i ddelio ag unrhyw ddigwyddiadau. Roedd y rhieni a'r staff wedi llofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau. Roedd y staff yn gwneud yn siwr bod y plant yn golchi eu dwylo cyn byrbryd a chinio. Roedd y gwasanaeth yn hyrwyddo bwyta'n iach ac roedd wedi cael gwobr aur gan yr awdurdod lleol am fyrbrydau. Roedd yn darparu amrywiaeth o fyrbrydau iach a dŵr neu laeth i'w yfed. Roedd y staff yn gwneud yn siwr bod ymarfer corff yn yr awyr agored yn rhan bwysig o'r sesiwn, ym mhob tywydd. Roedd y staff hefyd yn gwneud yn siwr bod y plant yn gallu cymryd rhan mewn sesiynau dawns.

Roedd y staff yn canmol y plant am ymddwyn yn dda ac yn ymateb i'r plant a oedd am gael eu cofleidio neu am gael sicrwydd. Roeddent yn ymateb yn gadarnhaol i arwyddion di-eiriau megis plentyn yn codi ei freichiau gan ddangos ei fod am gael ei godi. Roedd y staff yn rhoi sylw i anghenion y plant, er enghraifft, yn gofyn i'r plant a oedd yn dysgu sut i ddefnyddio'r poti a oedd angen iddynt fynd i'r toiled. Roedd y staff yn modelu ymddygiad da drwy siarad yn garedig â'i gilydd ac â'r plant drwy gydol y sesiwn, gan gydymffurfio â'u polisi ymddygiad.

Roedd gan y staff ddealltwriaeth dda am y plant yn eu gofal am eu bod yn gallu disgrifio hoffterau, cas bethau, anghenion a galluoedd unigol y plant. Roedd y staff yn casglu gwybodaeth am y plant yn eu gofal cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth ac roeddent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i olrhain datblygiad y plant. Roeddent hefyd yn arsylwi ar y plant yn chwarae ac yn ymateb i'w hoffterau. Er enghraifft, roedd yr hyn nad oedd yn ennyn diddordeb y plant bellach neu nad oeddent o fawr ddiddordeb iddynt yn cael eu newid. Roedd yr arweinwyr wedi dechrau rhoi'r dull chwilfrydedd ar waith, gan ddefnyddio chwilfrydedd naturiol y plentyn i fynd yn ôl at bethau sylfaenol fel adnoddau pren, eitemau cartref arferol a bric-a-brac. Roedd gweithgareddau'n cael eu cynllunio yn unol â'r tymhorau. Roeddent yn dilyn y gweithdrefnau mewn perthynas â phlant ag anghenion ychwanegol gan ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd y staff yn rhoi adborth ysgrifenedig dyddiol i'r rhieni am bob agwedd ar ofal y plant yn ystod y sesiwn, gan gynnwys y byrbrydau roedd y plentyn yn eu bwyta, hwyliau cyffredinol y plentyn, a'r gweithgareddau a wnaed.

## 3. Yr Amgylchedd Da

**Crynodeb**

Mae'r safle yn olau, yn drefnus ac wedi'i addurno'n dda. Gall y plant gael gafael ar amrywiaeth dda o deganau, adnoddau a dodrefn o faint sy'n addas i blant yn hawdd. Mae'r arweinwyr yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas i'r plant.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r plant yn cael gofal mewn adeilad glân a diogel. Roedd yr ystafell yn lân, yn daclus ac wedi'i chynnal a'i chadw'n dda ar y cyfan. Roedd un rhan fach o lawr y toiled wedi dechrau raflo, ond roedd wedi cael ei roi yn ôl yn ei le gyda thâp er mwyn atal y plant rhag baglu. Roedd y teganau'n cael eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff teganau sydd wedi torri eu taflu gan roi rhai newydd yn eu lle. Roedd y drws i'r gwasanaeth yn cael ei gadw dan glo ac nid oedd ymwelwyr heb wahoddiad yn cael dod i mewn heb oruchwyliaeth. Roedd llyfr ymwelwyr ar waith ac yn cael ei ddefnyddio i gofnodi ymwelwyr â'r gwasanaeth. Roedd cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod larymau tân a mwg yn ogystal â'r system wresogi yn cael eu profi bob blwyddyn. Roedd y dyfeisiau trydanol wedi cael prawf PAT. Roedd y plant a'r staff yn cynnal ymarferion tân yn rheolaidd, ac mae cofnodion cywir yn cael eu cadw. Roedd asesiadau risg cynhwysfawr ar gyfer yr ardal dan do a'r ardal awyr agored yn cael eu cynnal, ac roedd risgiau'n cael eu nodi a'u dileu cyhyd â phosibl. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Roedd yr ystafell wedi'i threfnu i ddarparu cyfleoedd i'r plant chwarae mewn ffyrdd gwahanol, yn unol â'r dull chwilfrydedd. Er enghraifft, gorsaf greadigol, byd bach tymhorol, gorsaf rhannau rhydd neu dincer a'r orsaf chwarae blêr. Roedd teganau ac adnoddau yn cael eu storio mewn unedau storio yr oedd y plant yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd, ac yn cael eu labelu â lluniau. Roedd toiledau a sinciau bach ar gael i'r plant. Roedd yr ardal awyr agored wedi'i hamgáu ac yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd chwarae. Roedd y plant yn gallu defnyddio teganau reidio, bwrdd sialc, ardal adeiladu, chwarae rôl cegin a twba dŵr. Gallai’r plant fynd i'r ardal awyr agored ym mhob tywydd gan fod ganddynt ganopi a oedd yn rhoi cysgod iddynt rhag y glaw a'r haul.

Roedd amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant megis deunyddiau creadigol, deunyddiau synhwyraidd, teganau chwarae rôl a chwarae byd bach, a oedd yn briodol i oedran y plant. Roeddent yn darparu adnoddau yr oedd y plant y eu mwynhau fel tebotiau a chwpanau yn y twba dŵr a chregyn a chonau yn yr ewyn. Roedd y teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac mewn cyflwr da.

## 4. Arwain a Rheoli Da

**Crynodeb**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn effeithiol drwy ddefnyddio amrywiaeth dda o systemau a gwiriadau ar gyfer adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da â'r rhieni.

**Ein canfyddiadau**

Roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben ar waith a oedd yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a ddarperir. Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith ac roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn effeithiol gan y staff fel rhan o'u harferion beunyddiol. Er enghraifft, roedd y staff yn dilyn y dulliau a amlinellwyd ym mholisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth drwy gydol ein hymweliad.

Gwnaeth yr arweinwyr adolygu'r gwasanaeth yn flynyddol a llunio adroddiad. Gwnaethant ddadansoddi'r adborth a gawsant gan y rhieni a'r staff ym mhob maes ac roeddent yn awyddus i wella eu gwasanaeth. Roedd yr adborth a gafwyd yn holiaduron y rhieni yn gadarnhaol iawn. Er enghraifft, gwnaeth nifer o'r rhieni sylwadau am ba mor gyfeillgar a hawdd mynd atynt oedd y staff yn y gwasanaeth.

Roedd ffeiliau'r staff yn dangos bod yr holl ddogfennau perthnasol ar waith a bod yr holl wiriadau angenrheidiol wedi cael eu cynnal i bennu addasrwydd y staff. Roedd archwiliadau blynyddol a sesiynau goruchwylio un i un yn cael eu cynnal gyda'r staff ac roedd anghenion a thargedau hyfforddiant yn cael eu nodi ar gyfer datblygiad. Roedd gan y staff gymwysterau addas. Roedd y staff yn cael hyfforddiant ychwanegol ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, dawnsio a symud Busy Feet, a hyfforddiant gweithgareddau awyr agored Forest School.

Roedd gan yr arweinwyr gydberthnasau gwaith da â'r rhieni ac asiantaethau allanol. Roedd holiaduron y rhieni yn cadarnhau bod y rhieni yn fodlon ar y wybodaeth a ddarparwyd iddynt am y gwasanaeth cyn i'w plentyn ddechrau, a datblygiad a gofal y plentyn. Mae gan yr arweinwyr gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r ysgol leol. Maent yn trosglwyddo gwybodaeth yn rheolaidd i'r ysgol er mwyn cynorthwyo gyda chyfnod pontio'r plant. Maent hefyd yn gallu defnyddio llwybr natur yr ysgol drwy'r coetir. Mae'r arweinwyr yn cysylltu ag asiantaethau allanol yn rheolaidd fel ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith, ac yn mynychu digwyddiadau yn y gymuned fel y Pasiant Meithrin, sef parêd lleol y mae'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan ynddo.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Rhoddwyd adborth dros y ffôn yn ddiweddarach.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 27 Chwefror 2020 am gyfnod o bedair awr a chwarter. Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau gan gynnwys ffeiliau'r staff, ffeiliau'r plant, cofnodion hyfforddi, cofnodion damweiniau a digwyddiadau a chofnodion cynllunio,
- arsylwi ar y plant gan ddefnyddio adnodd SOFI 2 (fframwaith arsylwi byr ar gyfer arolygu) er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff,
- siarad â'r unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb, y plant a'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Sara Wensley** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **28** |
| **Ystod oedran y plant** | **2-5 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 9am ac 3pm o ddydd Llun i ddydd Gwener** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **6 a 7 Ebrill 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **27 Chwefror 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy. Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi**<br>**ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:**<br>Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 31/07/2020